**Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon**
Brynglas Drive
Casnewydd
NP20 5QS
Tel/Ffôn: 01633 850804

E-mail/E-Bost: ysgol.gymraegbroteyrnon@newportschools.wales
ysgol.gymraegbroteyrnon@ysgolioncasnewydd.cymru
broteyrnon.bsky.social
Gwefan/Website: broteyrnon.cymru

Pennaeth/Headteacher: Mrs Lona Jones-Campbell

*"Ysgol i Esgor Gobeithion"*
*"A Place to Nurture our Aspirations"*

21/7/25

Annwyl Rieni/Gwarchodwyr,

Yn gyntaf hoffwn **ddiolch i fy holl staff** am eu gwaith diflino ar hyd y flwyddyn sydd wedi cynnig ystod o brofiadau gwerthfawr ar gyfer ein plant. Profiadau sy'n cynnwys:

- ymweliadau preswyl i Langrannog ac Abernant;
- ymweliadau mewnol ac allanol amrywiol i amgueddfeydd, theatrau, gwlypdiroedd a chestyll;
- perfformio mewn cystadlaethau cenedlaethol, theatrau lleol a phrosiectau cerddorol mewnol yn yr ysgol;
- cystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon/ twrnameintiau,
- a chynnal amrywiol glybiau ar ôl ysgol ………………..fel y gwelwch mae'r rhestr yn faeth!

**Diolch i bob un o fy staff am gydweithio gyda mi i wireddu cymaint!**

Diolch i chi ein teuluoedd, y gymuned ehangach a'r Corff Llywodraethol am eich cefnogaeth ar bob adeg. Diolch hefyd am yr holl roddion hael a negeseuon o ddiolch. Edrychaf ymlaen at eich gweld ym mis Medi a phob lwc i bawb sy'n cychwyn pennod Newydd yn eich bywyd.

Dear Parents/Guardians,

Firstly, I would like to **thank all my staff** for their tireless work throughout the year which has offered a range of valuable experiences for our children. Experiences which include:

- residential visits to Llangrannog and Abernant;
- internal and external visits to museums, theatres, wetlands and castles;
- performing in national competitions, local theatres and internal musical projects at the school;
- competing in sports competitions/tournaments,
- and run various after school clubs ………………… as you can see the list is extensive!

**Thanks to all my staff for working with me to realise so much!**

Thanks to all our families, the wider community and the Governing Body for your support and cooperation at all times. Also thank you for your generous gifts and messages of thanks. I look forward to seeing you all in September and good luck to everyone starting a new chapter in your life.

Mwynhewh yr Haf/Enjoy the Summer
Lona Jones-Campbell

## Picnic a Marchnad Tyfu Gyda'n Gilydd Picnic and Growing Together Market

Braf oedd gweld cynifer ohonoch yn y Farchnad Tyfu Gyda'n Gilydd a'r picnic ar y 25/6/25 yn mwynhau gyda'ch plant a chymuned Bro Teyrnon. Diolch am gefnogi mentrau busnes ein disgyblion. Braf oedd cael perfformio cân yr ysgol i'r holl gymuned a blwyddyn nesaf fe gawn mwy o weithgarwch ar eich cyfer.

Braf hefyd oedd gweld y gymuned ehangach yn dod at ei gilydd yn ystod y Picnic Tedi ar y 15/07/25. Diolch i'r staff am baratoi ar gyfer y digwyddiad.

It was lovely to see a large number of the school community in attendance at the Growing Together Market and picnic on the 25/6/25 alongside your children and the Bro Teyrnon Community. Thank you for supporting our children's business initiatives. It was lovely to sing our school song to you our school community and next year we'll have more activities for you.

It was also nice to see the wider community come together during the Teddy Picnic on 15/07/25. Thanks to the staff for preparing for the event.

## Perfformiad Blwyddyn 5 "Y Jyngl" yn Theatr Glan yr Afon – 01/07/25 Year 5 "The Jungle" performance in the Riverfront Theatre

Llongyfarchiadau i chi gyd am berfformiad anhygoel a diolch i Miss Esyllt Jones am gydlynu pob dim mewn partneriaeth gyda'r plant, Theatr Glan yr Afon a Theatr Iolo. Noson i'w chofio a braf bod casgliad hyfryd o luniau a ffilm yn gofnod o'r achlysur. Roedd themâu'r sioeau gan yr holl ysgolion yn amserol iawn ac un atgof sy'n aros gyda mi yw tystio un o deuluoedd Bro Teyrnon yn cefnogi teulu o ysgol arall yn y maes parcio. Caredigrwydd yn ymdreiddio o amgylch ein plant o'r ysgol a ganddoch chi fel teuluoedd. Llawn balchder o'n cymuned.

Congratulations to you all for an amazing performance and thanks to Miss Esyllt Jones for coordinating everything in partnership with the children, Theatr Glan yr Afon and Theatr Iolo. A night to remember and it is lovely to have a wonderful collection of photos and a film of the performance as a record of the occasion. The themes of the shows by all the schools were very timely and one memory that stays with me is witnessing one of the families of Bro Teyrnon supporting a family from another school in the car park. Kindness permeates our children from the school and you as families. Proud of the whole community.

**Ffair Haf CRAFf - 9/ 7/25 - PTFA Summer Fayre**

Llongyfarchiadau i Ffrindiau Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon am Ffair Haf llwyddiannus arall. Cyfanswm i'w gadarnhau. Diolch i bawb am helpu gyda'r paratoadau ac yn ystod y digwyddiad.

Congratulations to the Friends of Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon for another successful Summer Fayre. Total monies raised to be confirmed. Thanks to everyone who helped with the preparations and during the event.


























**Ffair Haf CRAFf - 9/ 7/25 - PTFA Summer Fayre**

Braf oedd edrych nôl ar y lluniau yn crynhoi'r digwyddiad cymunedol.

It was nice to look back at the photos summarizing the community event.















**Llwybr 100m Enfys yr Urdd - 14/7/25 - 100m Urdd Rainbow Run Event**

Diolch i bawb oedd wedi mynychu'r digwyddiad noddedig ar gyfer codi arian i Gronfa Eisteddfod yr Urdd 2027
Hoffwn ddiolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chyhoeddi ein bod wedi casglu £2262.80

Thanks to everyone who attended the sponsored event to raise money for the Urdd Eisteddfod Fund 2027
I would like to thank you all for your support and announce that £2262.80 was raised.

**Bro Teyrnon yn derbyn gwobr y Fanner Werdd Ysgolion Eco/ 1/7/25**
**Bro Teyrnon awarded the Eco Schools Green Flag**

Llongyfarchiadau i'r ysgol am dderbyn gwobr y Faner Werdd Ysgolion Eco. Diolch i'r Cyngor Eco a Ms Rhian Beynon am gyd-weithio ac am wireddu nifer o amcanion. Hoffwn hefyd ddiolch i Mrs Stephanie Harborne am arwain nifer o ddatblygiadau amgylcheddol ar y safle. Nodwyd hefyd sut mae'r ysgol wedi datblygu a hymgorffori prosiectau amgylcheddol effeithiol ar draws yr ysgol.




Congratulations to the school for receiving the Eco Schools Green Flag award. Thank you to the Eco Council and Ms Rhian Beynon for working together and for realizing many objectives. I would also like to thank Mrs Stephanie Harborne for leading a number of environmental developments on the site. It was also noted how the school has developed and imbedded effective environmental projects across the school.

## Hyfforddiant Cymorth Cyntaf 17/7/25 First Aid Training

Hoffwn ddiolch i Stephen Marshall o St John Ambulance Cymru am ddod i gynnal sesiwn hyfforddi Cymorth Cyntaf gyda phlant dosbarthiadau Blwyddyn 4, 5 a 6. Cydlynwyd hyfforddiant Cymorth Cyntaf i ddigwydd ym mis Mehefin llynedd gan ddarparwyr eraill ond roeddent wedi ein hybysu ar y funud olaf nad oeddent yn gallu cynnal yr hyfforddiant. Braf yw bod hyn wedi ei wireddu eleni ac fe fydd pob disgybl oedd yn bresennol yn derbyn tystysgrif. Fe fydd yr hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn rhan o'n rhaglen flynyddol Iechyd a Lles ar gyfer plant Blwyddyn 4.

I would like to thank Stephen Marshall from St John Ambulance Cymru for conducting First Aid training sessions with children in Year 4, 5 and 6 classes. First Aid training was coordinated to take place in June last year by other providers but they had informed us at the last minute that they were unable to hold the training. It is good that this has been realised this year and all pupils who attended will receive a certificate. The First Aid training will be part of our annual Health and Wellbeing program for Year 4 children.